# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
# 23-10-12

**Presennol:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Robert J. Wright (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli), W.A. Partington a Robert Riddell (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambr Fasnach Pwllheli), David Dewsbury a Brian Edmonds (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Harbwr Pwllheli), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Peter Read

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mr David Dewsbury yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2012 yn ddarostyngedig i newid y geiriau "harbwr mewnol" i "harbwr allanol" yn yr ail baragraff dan y pennawd "Mordwyo/Angorfeydd/Carthu".

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cofnod 4 – Materion i'w Hystyried ar Gais Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol
c) Gwifren Tonfyrddio Pwllheli

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn ym Mawrth 2012, fe ohebwyd â'r unigolyn a gyflwynodd y syniad yn tynnu sylw at benderfyniad y pwyllgor i gynnal cyfarfod gydag ef a'r aelodau lleol i drafod opsiynau eraill ar gyfer cynnal y fenter. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr unigolyn, ac yn wyneb hynny credir felly nad yw'n fwriad ganddo i fynd rhagddo â'r fenter.

Cyfeiriodd aelod i'r unigolyn dan sylw gysylltu ag ef parthed y posibilrwydd o ddefnyddio'r rhan rhwng yr hen ynys a Chei'r Gogledd i gynnal y fenter.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, mewn ymgynghoriad â'r aelodau lleol, i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r llecyn hwn i gynnal y fenter.**

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Mordwyo, Angorfeydd a Carthu
- Cyllidebau'r Harbyrau
- Digwyddiadau
- Academi Hwylio
- Ystadegau Morwrol
- Staff Harbwr
- Diogelwch Offer Morol

**Mordwyo, Angorfeydd a Carthu**

i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gôd Diogelwch Harbyrau a gyhoeddwyd yn 2002. Rhoddodd amlinelliad o'r prif bwyntiau a geir ynddo ac eglurodd y caiff ei adolygu yn ystod yr wythnosau nesaf. Nododd y bwriedir cyflwyno'r côd diwygiedig i'r pwyllgor hwn yn y cyfarfod ar 19 Mawrth 2013 i'w fabwysiadu.

Gofynnodd aelod os yw'r Côd Diogelwch ar safle We'r Cyngor. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog nad yw'r mwyafrif o'r materion yn ymwneud â'r gwasanaeth morwrol ar y we ac iddo drafod hyn gyda'r Uned Technoleg Gwybodaeth. Cytunwyd y dylid pwyso ymhellach ar yr Uned Technoleg Gwybodaeth ynglyn â hyn.

ii) O safbwynt y cymhorthion mordwyo, nododd y swyddog bod Tŷ'r Drindod yn archwilio'r cyfan o'r cymhorthion yn flynyddol ac mai y rhai ym Mhwllheli yw'r rhai rhwyddaf i'w cynnal. Diolchodd i staff yr hafan a'r harbwr am y gwaith a ymgymerwyd ar y cymhorthion hyn a nododd bod safon y bwiau yn yr harbwr yn gyffredinol yn uchel.

Parthed y golau ar y bwi tu allan i Garreg yr Imbyll, gofynnodd aelod pwy oedd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y bwi hwn a gofynnwyd iddynt os oes pwrpas i'w gadw. Nododd bod Dŵr Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn ddiweddar ar brynu cymhorthion mordwyo trwy Gymru.

iii) Lleihawyd nifer yr angorfeydd yn yr harbwr oherwydd bod nifer ohonynt yn wastad yn wag a chliriwyd y rhan rhwng Cei'r Gogledd a'r hen ynys ond cadwyd prif gadwyn yr angorfeydd ar wely'r môr rhag ofn y bydd defnydd ohonynt yn y dyfodol. Ni ragwelai y bydd y costau cynnal a chadw'r angorfeydd yn uchel iawn y gaeaf hwn. Efallai bydd angen ymgymryd ag ychydig o waith archwilio arnynt oherwydd ni wnaed hynny y llynedd. Cyplysir y gwaith hwn gyda gwaith cyffelyb yn harbwr Porthmadog. Nododd y clustnodwyd oddeutu £1,000 ar gyfer y gwaith hwn. Nid oes angen ymgymryd â gwaith ar y stanciau.

O safbwynt y bwi monitro llaid, hysbysodd y swyddog y derbyniwyd cais gan Brifysgol Bangor i osod dau fwi ar wely'r sianel, gyferbyn â swyddfa'r Harbwr Feistr, am gyfnod o bythefnos, i fonitro'r llaid a ddeuai i mewn ac allan o'r harbwr.

iv) Parthed y gwaith carthu, nododd y swyddog y cwblhawyd nifer o'r gwelliannau a oedd yn cynnwys tynnu nifer o stanciau ac 'roedd hyn wedi bod o gymorth mawr i gychod fordwyo yn yr harbwr. Cwblhawyd yr arolwg hydrograffeg yn ddiweddar. 'Roedd y sefyllfa'n edrych yn dda yn y sianel ond bod angen tipyn o waith carthu yno.

**Cyllidebau'r Harbyrau**

Mewn perthynas â harbwr Pwllheli, nododd y swyddog bod ychydig tros £2,000 o orwariant yn yr harbwr yn ystod 2011/12 parthed costau cyflenwadau a gwasanaethau. 'Roedd rhan helaeth o gostau staff yr harbwr wedi eu torri fel arbedion oddeutu pedair blynedd yn ôl. Nododd bod yr incwm o'r angorfeydd yn heriol yn yr harbwr allanol. 'Roedd y targed y llynedd yn £118,000 ac 'roedd yr angorfeydd parhaol ychydig dan £100,000 o darged ond oherwydd bod yna angorfeydd gwag yn yr harbwr, 'roedd lleihad yn yr incwm o £31,000 ac felly 'roedd cyfanswm y gorwariant yn £33,000.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed rhenti tir, adeiladau a.y., nododd y swyddog y rhoddir ystyriaeth i hysbysebu unedau gwag gan edrych ar y modd y gellir masnachu'r unedau hyn gan gynnwys cyn swyddfa'r harbwrfeistr sy'n wag ar hyn o bryd. Bwriedir hysbysebu'r unedau gwag yn ystod y misoedd nesaf.

Parthed cyllideb Hafan Pwllheli, hysbysodd y swyddog bod ychydig tros £22,000 o danwariant yn y costau staffio. Nododd bod y targed incwm yn £1.5m a sicrhawyd £1.4m ohono sydd oddeutu £104,000 yn llai na'r targed. Felly, gorwariwyd oddeutu £91,000 yn yr Hafan yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Tynnodd y swyddog sylw at y lleihad yn nifer y defnydd o'r angorfeydd ym mhob harbwr trwy Wynedd sy'n deillio'n bennaf o sefyllfa economaidd bregus y wlad.

Nododd y swyddog ei fod yn bryderus iawn am y sefyllfa yn yr harbwr allanol oherwydd fe fuddsoddwyd yn sylweddol i dynnu 18 o stanciau yno a olygai golli mewn egwyddor, 36 o angorfeydd. Edrychir ar osod pontwns rhwng y stanciau eraill a fydd yn botensial i gael rhagor o angorfeydd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rhagwelir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol y bydd y targed incwm yn yr harbwr allanol yn £46,000 yn fyr o'r targed gyda £119,000 o orwariant yn yr Hafan.

Mewn perthynas â ffioedd a thaliadau 2013/14, hysbysodd y swyddog y disgwylir y gellir argymell na fydd cynnydd ynddynt ac y byddai hynny'n ffordd bositif ymlaen.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Nododd, pe byddai'r busnesion lleol yn teimlo bod disgownt yn fanteisiol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yna croesewir unrhyw ohebiaeth neu gysylltiad gyda gwybodaeth a fyddai'n rhan o'r achos busnes i edrych ar gyllidebau'r flwyddyn nesaf.

Hysbysodd y swyddog bod yr hoist newydd wedi ei osod yn yr Hafan am gost o £150,000 ac fe werthir yr hen hoist yn ystod yr wythnosau nesaf.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod rhan o'r cynllun gwethredu a gytunwyd eisoes ar gyfer y tymor hir yn cyfeirio at yr ymrwymiad i fuddsoddi yn yr Hafan a bod yr hoist yn un o'r agweddau hynny.

**Digwyddiadau**

Hysbysodd y swyddog i Ŵyl Wakestock fod yn llwyddiannus iawn eto eleni ac y bydd yn dychwelyd eto y flwyddyn nesaf gyda chystadlaethau yn yr harbwr mewnol ar 5/6 Gorffennaf 2013.

Ni dderbyniwyd cadarnhad gan drefnwyr yr Ŵyl Fwyd ond tybid y byddant yn cynnal trafodaeth gyda Chlwb Hwylio Pwllheli.

Nododd i Glwb Hwylio Pwllheli gael blwyddyn lwyddiannus eto eleni a diolchodd i aelodau'r clwb a staff yr hafan am sicrhau'r llwyddiannau hyn.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y diffyg golau yng nghyffiniau'r Clwb Hwylio, hysbysodd y swyddog iddo eisoes drafod y mater gyda'r peiriannydd safle.

Mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar Orchymyn Rheoli Cŵn, hysbysodd y swyddog bod hyn yn effeithio ar ffiniau'r harbwr sef Traeth Glandon a Thraeth Marian y De. Awgrymodd ar Draeth Glandon y dylid newid y parth o un ochr i'r llall oherwydd y gellir cerdded wedyn o Glandon i Abererch ac yn ôl heb waharddiad. Annogodd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 5 Tachwedd 2012 ac yn dilyn hynny fe asesir yr holl sylwadau. Nododd y bu'n ofynnol ailedrych ar nifer o'r traethau trwy Wynedd oherwydd i linell llwybr yr arfordir fynd drwy draethau lle 'roedd gwaharddiad cŵn yn bodoli arnynt eisoes. Ar hyn o bryd nid yw'r staff yn y gwasanaeth morwrol â'r pŵer i roddi dirwy i berchenogion cŵn sy'n troseddu ond pan ddeuai'r gorchymyn hwn i rym, fe fydd ganddynt yr hawl i roddi dirwyon.

**Academi Hwylio**

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ddiweddariad o gynllun yr academi.

Cyfeiriodd at dair wedd o'r cynllun sef –
a) Ailgyfeirio ffordd yr hafan a gwaith cysylltu cyflenwad nwy sydd eisoes wedi eu cwblhau.
b) Codi adeilad newydd. Nododd bod y broses tendro o safbwynt yr adeilad ar waith a gwahoddwyd tendrau. Bwriedir dechrau ar waith adeiladu'r adeilad yn Ionawr 2013 a disgwylir y bydd cynllun yr academi yn weithredol erbyn 2014.
c) Datblygu adnoddau o fewn yr harbwr o safbwynt pontwns i'r gogledd o'r Hafan ar gyfer digwyddiadau ar gyfer yr academi a hefyd y gwaith carthu sy'n gysylltiedig â hynny. Fel rhan o gynllun gweithredu'r Hafan fe ymrwymwyd i geisio gwneud y defnydd gorau o'r offer a'r peiriannau carthu a raglennwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf fel y gellir gwneud y gwaith cynnal a chadw'n ogystal. 'Roedd yn ymwybodol am rai o'r cyfyngiadau yn y sianel a'r basn ar hyn o bryd a cheisir cwblhau'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer tymor 2013.

Rhoddodd fanylion am wybodaeth am y cynllun a dderbyniodd gan Beiriannydd o Adran Ymgynghoriaeth y Cyngor sy'n gweithio ar y cynllun.

Cyfeiriodd aelod y dylid bod yn ofalus lle y gwaredir y llaid a garthir o'r harbwr. Awgrymodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y dylid cynnal cyfarfod gyda'r aelodau lleol a'r gontractwr i drafod hyn. Cytunwyd â'r awgrym hwn.

Cyfeiriodd y swyddog at daflen newyddion a gynhyrchir ar gyfer yr Hafan a disgwylir y bydd ar gael yn fuan. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i roddi mwy o gyhoeddusrwydd i faterion/digwyddiadau yn ymwneud â'r harbwr ac addawodd drafod y mater gyda Uned y Wasg y Cyngor.

**Ystadegau Morwrol**

Rhoddodd y swyddog fanylion am ystadegau angorfeydd yr harbwr, yr Hafan, harbyrau eraill yn ogystal ag ystadegau cyffredinol.

Mewn perthynas â'r ystadegau ar gyfer yr Hafan, nododd y swyddog y disgwylir i gychod ddod i mewn i'r Hafan yn ystod y gaeaf yn ogystal.

Datganodd aelod bryder bod nifer y cychwyr lleol yn yr harbwr yn lleihau o'i gymharu â gweddill y cychwyr, a gofynnodd a fyddai'n briodol ystyried rhoddi disgownt iddynt. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod yna wahaniaeth yn ffioedd y cychwyr lleol o'i

gymharu â gweddill y cychwyr. ‘Roedd o’r farn na ddylid rhoddi disgownt oherwydd bod angorfeydd gwag ar gael iddynt yn yr harbwr allanol ac yn harbwr Porthmadog.

**Staff Harbwr**

Hysbysodd y swyddog y cymerwyd camau i ailstrwythuro staff yr harbwr a’r Hafan gyda Rheolwr yr Hafan erbyn hyn yn gyfrifol am reolaeth yr Harbwr yn ogystal.

Nododd y prynwyd tractor newydd ar gyfer yr Hafan a fyddai’n cael ei ddefnyddio hefyd i glirio tywod ym Marian y De.

Ail-leolwyd yr harbwrfeistr i ochr yr Hafan lle mae’r mwyafrif o’r gweithgareddau’n digwydd.

Bwriedir hysbysebu rheolaeth y llithrfa gyhoeddus a hefyd cyn swyddfa’r harbwrfeistr fel y gellir eu rhoddi i dendr er cael gwell rheolaeth ar y lansio y flwyddyn nesaf.

**Diogelwch Offer Morol**

Nododd y swyddog bod yr heddlu’n bryderus oherwydd y nifer o achosion o ladrata o gychod yn enwedig yr ardal rhwng Abersoch ac Aberdyfi ac iddynt ail-lansio’r Cynllun Gwarchod Morol. Gofynnodd i aelodau’r pwyllgor ledaenu’r wybodaeth am hyn i berchenogion cychod yn yr ardal.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 6. ETHOL SYLWEDYDDION

Adroddwyd bod angen ethol sylwedydd/ion i wasanaethu ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R.J. Wright i wasanaethu fel sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.**

## 7. AMSER DECHRAU’R PWYLLGOR I’R DYFODOL

**PENDERFYNWYD glynu at 6.00 o’r gloch fel amser dechrau’r pwyllgor i’r dyfodol.**

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Mawrth 2013.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.50pm